


Cynllun Datblygu Lleol Conwy i'w Archwilio Gan y Cyhoedd 2007 – 2022 (Argraffiad Diwygiedig 2011)



PAPUR CEFNDIR 8 DIWYGIEDIG - CYFLWYNO

Hierarchaeth Aneddiadau ac Asesiad Ffiniau Anheddiad

Awst 2012

Gellir gweld a lawrlwytho'r ddogfen hon ar wefan y Cyngor ar: www.conwy.gov.uk/cdll, Mae copïau hefyd ar gael yn y prif lyfrgelloedd ac yn swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio, 26 Castle Street, Conwy LL32 8AY neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon a fydddech gystal â chysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575181 / 575124 / 575445 / 575447.

Os hoffech gael rhan neu grynodedb o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

CYNNWYS

	Tudalen
Pennod Un.....	4
Yr Hierarchaeth Aneddiadau Arfaethedig	4
1. Pwrrpas yr adroddiad	4
2. Y cyd-destun polisi presennol	4
3. Y cyd-destun polisi sy'n datblygu	5
4. Pam fod angen adolygiad?	5
5. Yr hierarchaeth arfaethedig	6
Ardaloedd Trefol	7
Prif Bentreffi.....	8
Pentreffi Llai.....	9
Pentrefannau	9
6. Ffiniau aneddiadau	9
7 Argymhelliad	10
Pennod Dau.....	14
Adolygiad o hierarchaeth aneddiadau a rennir sydd o boptu'r ffin rhwng Conwy a Pharc Cenedlaethol Eryri.	14
8. Pwrrpas yr adroddiad	14
9. Y cyd-destun polisi presennol (aneddiadau a rennir)	14
Conwy	14
Eryri.....	15
10. Y cyd-destun polisi sy'n datblygu – Conwy	17
11. Yr Hierarchaeth	17
12. Pam fod angen adolygiad?	17
13. Cymharu polisiâu o boptu'r ffin	17
Prif Bentreffi – Conwy	17
14. Pentreffi Llai	18
15. Pentrefannau	19
16 Materion	20
Trefriw	20
Dwygyfylchi a Chapelulo	20
Safleoedd Eithriadau	20
17 Argymhellion	20
Atodiad 1	22
Atodiad 2	25
Atodiad 3	28

Pennod Un

Yr Hierarchaeth Aneddiadau Arfaethedig

1. Pwrpas yr adroddiad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut y bydd y Cynllun Datblygu Lleol i'w archwilio gan y cyhoedd yn rhoi sylw i rolau a swyddogaethau aneddiadau ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Bydd hyn yn pennu, yn fras, maint a natur y datblygiadau y gellir eu cynnal ym mhob anheddiad ar y cyfan.
- 1.2 Caiff proses haenog ei mabwysiadu ar gyfer aneddiadau grŵp â nodweddion tebyg o ran maint, cyfleusterau, pwysau twf a'r gwasanaethau sydd ar gael. Mae hyn yn ei gwneud yn bosib cael lefelau twf cynaliadwy a chymesur.

2. Y cyd-destun polisi presennol

- 2.1 Mae Cynllun Strwythur Gwynedd yn nodi Llandudno / Conwy a Llanrwst fel Canolbwyntiau, a Llandudno, Cyffordd Llandudno, Llanfairfechan, Morfa Conwy a Llanrwst fel lleoliadau cyflogaeth.
- 2.2 Mae Cynllun Strwythur Clwyd yn nodi'r ardaloedd o Landrillo-yn-Rhos i Hen Golwyn ac o Abergele i Fae Cinmel fel Prif Aneddiadau.
- 2.3 Mae Cynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn yn dilyn dull ac iddo dair haen. Caiff y Prif Aneddiadau yng Nghynllun Strwythur Clwyd eu nodi fel Ardaloedd Trefol. Mae'r Cynllun Lleol hefyd yn nodi saith Prif Bentref, yn ogystal ag 21 o Aneddiadau Llai. Yn achos yr Aneddiadau Llai, cyfyngir datblygiadau tai i aneddiadau fforddiadwy sengl i gwrdd ag anghenion lleol.
- 2.4 Ni aeth Cynllun Datblygu Unedol (CDU) Conwy yn bellach na statws drafft, ond cyfeirir ato at ddibenion cymharu. Roedd y CDU drafft hefyd yn dilyn dull ac iddo dair haen, gan nodi'r holl aneddiadau arfordirol a Llanrwst fel Ardaloedd Trefol. Islaw hyn, roedd y CDU yn cynnig 13 o Brif Bentrefi ac 20 o Aneddiadau Llai.
- 2.5 Mae CDLI Eryri'n berthnasol i'r Parc Cenedlaethol. Er nad yw'r Cynllun hwn yn berthnasol i ardal CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd Conwy, mae'n effeithio ar nifer o gymunedau yng Nghonwy, a chyfeirir ato at ddibenion cymharu. Mae'n

mabwysiadu dull ac iddo bedwar haen sy'n cynnwys 2 Ganolfan Gwasanaeth Lleol (Dolgellau a'r Bala), 5 Anheddiad Gwasanaeth, 38 Anheddiad Eilaidd a 29 Anheddiad Llai.

3. Y cyd-destun polisi sy'n datblygu

- 3.1 Mae rolau aneddiadau allweddol wedi cael eu nodi trwy'r astudiaethau fel rhan o Gynllun Gofodol Cymru.
- 3.2 Cafodd y fersiwn ddrafft o Strategaeth Ffaffriedig (SFf) CDLI Conwy ei chyhoeddi ym mis Hydref 2006. Roedd yn nodi 25 o Brif Aneddiadau, sy'n cynnwys o leiaf 100 o anheddau, ysgol gynradd, gwasanaeth bysiau rheolaidd (gan gofio amgylchiadau gwahanol rhai cymunedau gwledig) ac yn y rhan fwyaf o achosion, siop, swyddfa bost a thŷ tafarn a chanolfan gymunedol neu fan cyfarfod arall. Roedd y SFf hefyd yn cynnig y byddai nifer o Aneddiadau Llai'n cael eu nodi yn y Cynllun l'w archwilio gan y cyhoedd.
- 3.3 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi mabwysiadu ei CDLI, sy'n cynnwys dull ac iddo bum haen sy'n debyg i'r un a ddefnyddir yng Nghonwy ond gydag amrywiad bach gan gynnwys haen uwch.
- 3.4 Roedd hefyd angen adolygu'r aneddiadau sy'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol er mwyn ceisio dull cyson ac i gael dull i roi sylw i unrhyw faterion trawsffiniol. Mae papur ar wahân wedi cael ei baratoi i ymchwilio i hyn ac mae wedi'i atodi fel Pennod Dau.

4. Pam fod angen adolygiad?

- 4.1 Mae angen adolygu'r hierarchaeth aneddiadau yn y SFf ddiwygiedig am y rhesymau canlynol:
 - pryderon nad oedd SFf Hydref 2006 yn cynnwys elfen ofodol ddigonol;
 - yr angen i sicrhau bod y CDLI yn ystyriol o astudiaethau sydd wrthi'n datblygu fel rhan o'r Cynllun Gofodol;
 - yr angen i sicrhau bod CDLI Conwy'n gyson, cyn belled ag sy'n ymarferol, â CDLiau a baratowyd gan awdurdodau cyfagos; a'r
 - angen i'r CDLI fod yn fwy ymatebol i dai fforddiadwy sy'n cwrdd ag anghenion lleol, yn enwedig yn yr aneddiadau llai.

5. Yr hierarchaeth arfaethedig

5.1 Mae'r papur hwn yn defnyddio egwyddorion cynaliadwyedd i asesu'r hierarchaeth aneddiadau er mwyn canfod y lleoliadau mwyaf addas ar gyfer datblygiadau newydd. Fel mewn cynlluniau blaenorol; mae dadansoddiad o bob anheddiad a nodweddion yr aneddiadau wedi arwain at ddull hierarchaidd o grwpio aneddiadau a thrwy hynny reoli cyfradd a lleoliadau datblygiadau newydd. Y prif negeseuon o ddogfennau a dulliau presennol yw:

- Dylid cyfeirio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau at drefi presennol er mwyn helpu i gynyddu i'r eithaf hygyrchedd cyflogaeth, addysg a gwasanaethau ar droed, ar feic ac ar gludiant cyhoeddus.
- Mewn ardaloedd gwledig, dylai datblygiadau fod wedi'u canolbwyntio ar aneddiadau a all weithredu fel canolfannau ar gyfer yr ardaloedd o amgylch.
- Yn achos tai, dim ond twf cyfyngedig y dylid ei ddisgwyl trwy ehangiad pentrefi, ac ni fydd datblygiad sylweddol ond yn briodol a) pan ellir dangos ei fod yn angenrheidiol er mwyn cynnal gwasanaethau lleol, b) pan fo angen y tai i ddiwallu anghenion lleol, a c) pan ei fod yn gydnaws â chymeriad y pentref.

5.2 Dylai'r ffocws ar gyfer datblygiadau sylweddol fod yn yr Ardaloedd Trefol a wasanaethir yn dda gan gludiant cyhoeddus a chyfleusterau eraill. Efallai y darperir ar gyfer datblygiadau mewn pentrefi a chymunedau gwledig bychain eraill lle mae'u hangen oherwydd eu cyfraniad tuag at gynaliadwyedd y cymunedau. Y flaenoriaeth o ran datblygu yw gwneud y defnydd gorau o safleoedd tir llwyd, ond pan fo'r rhain yn annigonol neu heb fod ar gael, efallai y bydd angen defnyddio tiroedd maes glas addas.

5.3 Cynigir y dylai'r CDLI ddilyn dull ac iddo bum haen fel a ganlyn:

- Ardaloedd Trefol
- Prif Bentrefi Haen Un
- Prif Bentrefi Haen Dau
- Pentrefi Llai
- Pentrefannau

- 5.4 Caiff nodweddion pob anheddiad a'r math o ddatblygiad y gellir ei ganiatáu eu disgrifio isod, a'u crynhoi yn Nhabl 1 yr adroddiad hwn.

Ardaloedd Trefol

- 5.5 Mae'r rhain yn cynnwys aneddiadau mwy, â lleiafswm poblogaeth o 3,000. Cânt eu gwasanaethu'n dda gan gludiant cyhoeddus, maent yn cynnal ystod eang o gyfleusterau ac mae safleoedd cyflogaeth i'w cael ynddynt neu'n agos atynt. Maent yn cynnwys Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Deganwy, Llandudno, Cyffordd Llandudno, Llanfairfechan, Llanrwst, Penmaenmawr, Bae Penrhyn / Ochr Penrhyn a Thywyn / Bae Cinmel.
- 5.6 Yn y rhan fwyaf o achosion, yn yr Ardaloedd Trefol y bydd y gyfran fwyaf o'r datblygiadau, yn amodol ar y lle sydd ym mhob anheddiad. Bydd tai'n cael eu derbyn ar safleoedd a neilltuwyd ac ar hapsafleoedd. Y safleoedd a neilltuwyd yw'r rhai a ddangosir ar y Map Cynigion. Argymhellir y dylid fel arfer neilltuo safleoedd sydd â'r gallu i dderbyn 10 neu fwy o anheddau.
- 5.7 Mae hapsafleoedd fel rheol yn rhai sydd wedi'u lleoli ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Nid ydynt wedi'u neilltuo ar y Map Cynigion, naill ai am eu bod islaw'r trothwy maint, neu am fod y rhagolygon ar gyfer eu datblygu'n rhy ansicr. Fodd bynnag, gallant fod yn gyfran sylweddol o gyfanswm y datblygiadau tai mewn anheddiad. Bydd nifer yr anheddau a fydd yn cael eu caniatáu ar hapsafleoedd yn adlewyrchu gallu pob anheddiad i dyfu.
- 5.8 Bydd cyfran o anheddau ar safleoedd a neilltuwyd a hapsafleoedd yn cael eu cadw fel Tai Fforddiadwy ar gyfer Anghenion Lleol (TFfALI), yn unol â pholisïau ar dai fforddiadwy sydd wrthi'n datblygu.
- 5.9 Yn achos Ardaloedd Trefol, ni fyddai unrhyw ddatblygiadau tai'n cael eu caniatáu y tu allan i ffiniau'r aneddiadau.
- 5.10 Yr Ardaloedd Trefol hefyd fydd yn derbyn y gyfran uchaf o ddatblygiadau manwerthu, masnachol a hamdden. Ym mhob achos, mae'n rhaid bod y datblygiad yn llwyddo yn y profion cymalog ym Mholisi Cynllunio Cymru, a'u bod ar raddfa sy'n gymesur â swyddogaeth yr anheddiad.

Prif Bentrefi

- 5.11 Prif Bentrefi, sy'n cynnwys o leiaf 100 o anheddau, ysgol gynradd, gwasanaeth bysiau rheolaidd (gan gofio amgylchiadau gwahanol rhai cymunedau gwledig) ac yn y rhan fwyaf o achosion, siop, swyddfa bost a thŷ tafarn a chanolfan gymunedol neu fan cyfarfod arall. Caiff Dwygyfylchi, Glan Conwy, Llanddulas a Llysfaen eu categoreiddio fel Prif Bentrefi Haen 1. Caiff Betws-yn-Rhos, Cerrigydrudion, Dolgarrog*, Eglwysbach, Llanfair Talhaearn, Llangernyw, Llansannan, Tal-y-bont / Castell* a Threfriw* eu categoreiddio fel Prif Bentrefi Haen 2.
- 5.12 Mae Prif Bentrefi Haen 1 yn darparu lefel uwch o gyfleusterau a gwasanaethau na Phrif Bentrefi Haen 2 ac mae ganddynt fwy o fynediad cynaliadwy at yr uwch-ardaloedd trefol. Mae'n bwysig diogelu'u lefel bresennol o gyfleusterau a gwasanaethau lle y bo'n bosib.
- 5.13 Bydd y Cynllun yn chwarae'i ran trwy wrthsefyll colli siopau a swyddfeydd post mewn pentrefi a diogelu mannau agored presennol. Bydd y Prif Bentrefi Haen 1 yn darparu cyfuniad o dai am bris y farchnad a TFfALI o ymrwymadau presennol, ar safleoedd a neilltuwyd ac o ddatblygiadau ar hapsafleoedd, er mwyn cyflawni'r amcanion gofodol ar gyfer darparu TFfALI a diogelu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol.
- 5.14 O fewn y Prif Bentrefi Haen 2, bydd y cyngor yn ceisio cyflawni 100% TFfALI ar safleoedd a neilltuwyd a hapsafleoedd o fewn ffin yr anheddiad er mwyn cynrychioli'r lefel o gyfleusterau a gwasanaethau ac er mwyn diogelu'r iaith Gymraeg. Bydd cynlluniau o'r fath ar y cyfan yn llai na'r rheiny a ganiateir yn Ardaloedd y Strategaeth Datblygu Trefol, a chânt eu cyflwyno'n raddol yn unol â'r ddarpariaeth o ran isadeiledd. Efallai y bydd TFfALI yn ôl cyfradd o 100% ar raddfa fechan yn cael eu caniatáu ar ymyl yr anheddiad pan eu bod yn diwallu angen lleol. Bydd datblygiadau manwerthu, masnachol a hamdden llai'n cael eu caniatáu ar raddfa sy'n briodol i swyddogaeth yr anheddiad a lle y bo'n gwella cynaliadwyedd.
- 5.15 Dros gyfnod y cynllun, bydd oddeutu 952 (15%) o'r gofyn am dai'n cael ei ddosbarthu rhwng yr aneddiadau hyn (gan gynnwys y Pentrefi Llai a'r Pentrefannau) trwy ymrwymadau presennol, 'hapsafleoedd' a dyraniadau newydd yn bennaf yn yr aneddiadau Haen 1. Bydd oddeutu 15% o'r gofyn am safleoedd

cyflogaeth (defnyddiau B1, B2 a B8) yn cael ei ganiatáu yn y lleoliadau hyn i hybu datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn cydnabod y cyfyngiadau datblygu yn Nolgarrrog, Tal y Bont a Threfriw a'r cysylltiadau â Pharc Cenedlaethol Eryri. Yn Nolgarrrog, bydd y safle cyflogaeth presennol yn yr hen Waith Alwminiwm wedi cael ei ddiogelu ar gyfer defnyddiau cymysg (cyflogaeth/hamdden/twristiaeth). Ni fydd unrhyw ddatblygiadau pellach y tu allan i ffin anheddiad Trefriw dros gyfnod y cynllun o ganlyniad i'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â llifogydd a thopograffeg.

Pentrefi Llai

- 5.16 Mae gan Bentrefi Llai rhwng 50 a 100 o anheddau fel arfer, ond mae ganddynt un cyfleuster cymunedol neu fwy. Er na fydd y CDLI yn neilltuo tir i'w ddatblygu mewn Pentrefi Llai, bydd yn caniatáu hyd at dri TFfALI yn, neu ar ymyl, yr aneddiadau. Mae hwn yn ddull mwy hyblyg nag ym Mholisi CH9 Cynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn, gan ei fod yn caniatáu cynlluniau â mwy nag un annedd a'i fod hefyd yn caniatáu i safleoedd ar ymyl aneddiadau gael eu hystyried. Dylai caniatáu mwy o hyblygrwydd fel hyn roi anogaeth i gyflwyno mwy o geisiadau am AFfALI yn y Pentrefi Llai.
- 5.17 Bydd pentrefi llai hefyd yn derbyn datblygiadau manwerthu, masnachol a hamdden a ganiateir ar raddfa sy'n gymesur â swyddogaeth yr anheddiad.

Pentrefannau

- 5.18 Pentrefannau yw'r categori aneddiadau lleiaf. Maent yn glwstwr o aneddiadau sy'n hawdd i'w adnabod, ac maent yn nodweddiadol yn cynnwys rhwng 20 a 50. Mewn nifer o achosion, mae ganddynt hefyd un cyfleuster cymunedol neu fwy. Fodd bynnag, mae gwasanaethau cludiant cyhoeddus ar y cyfan yn anfynych ac mae'n rhaid wrth reolaeth dynn ar raddfeydd y datblygiadau. Ni chynigir neilltuo tir na dynodi ffiniau aneddiadau mewn Pentrefannau. Fodd bynnag, gellir caniatáu AFfALI sengl o fewn, neu ar ymyl yr anheddiad, yn ogystal â datblygiadau eraill ar raddfa fechan ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol neu sy'n cynnal hyfywedd y pentrefan, yn unol â Pholisïau DP2/DP6/HOU1 a HOU2.

6. Ffiniau aneddiadau

- 6.1 Defnyddir y rhain er mwyn dangos yn glir beth yw maint ardal drefol ac fe'u defnyddir ar gyfer Prif Bentrefi Haen 2 a'r aneddiadau hynny sy'n uwch yn yr haen.

Nid oes ffiniau aneddiadau gan Aneddiadau Llai na Phentrefannau. Bydd ffiniau aneddiadau'n cael eu haddasu er mwyn cynnwys safleoedd preswyl arfaethedig, safleoedd preswyl a ymrwymwyd yn flaenorol neu hapsafleoedd preswyl, a safleoedd cyflogaeth a safleoedd defnydd cymysg arfaethedig er mwyn sicrhau bod y defnyddiau priodol hynny'n cael eu darparu. Ni fydd addasiadau pellach ond yn cynnwys addasiadau rhesymegol ar bwys y safleoedd uchod. Gellir gweld ffiniau'r aneddiadau ar y Mapiau Cynigion.

7 Argymhelliad

- 7.1 Dilyn y dull cyffredinol a grynhoir yn Nhabl 1, yn amodol ar adolygiad pellach o'r aneddiadau hynny sydd o boptu'r ffin â'r Parc Cenedlaethol.
- 7.2 Ailddynodi ffiniau aneddiadau er mwyn cynnwys y safleoedd preswyl arfaethedig yn y CDLI a safleoedd wedi'u hymrwymo yn unol â'r Mapiau Cynigion (ar gael ar wahân).

Tabl 1 – Yr hierarchaeth aneddiadau arfaethedig

Sylwer: Mae'r tabl hwn wedi'i fwriadu er gwybodaeth yn unig. Dylid cyfeirio at y polisiau penodol am arweiniad pellach.

Categori	Aneddiadau	Nodweddion diffiniol	Datblygiadau tai	Datblygiadau eraill
Ardaloedd trefol	Abergele / Pensarn Bae Colwyn Bae Penrhyn / Ochr Penrhyn Conwy Cyffordd Llandudno Deganwy / Llanrhos Llandudno (g.g. Craig y Don / Craigside) Llanfairfechan Llanrwst Mochdre Penmaenmawr Tywyn / Bae Cinmel	Trefi neu aneddiadau sy'n rhan o gytrefiad trefol. Mae ganddynt wasanaethau cludiant cyhoeddus da, ac ystod eang o siopau, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth	O fewn aneddiadau – Bydd ardaloedd trefol yn darparu cyfuniad o dai am bris y farchnad a Thai Fforddiadwy ar gyfer Anghenion Lleol (TFfALI) ar safleoedd a neilltuwyd a hapsafleoedd. Bydd datblygiadau mwy'n cael eu cyflwyno'n raddol Y tu allan i ffiniau aneddiadau – Ni fydd unrhyw ddatblygiadau'n cael eu caniatáu (heblaw am TFfALI ar safleoedd eithriadau sy'n gyfagos at Lanrwst)	Bydd datblygiadau manwerthu, masnachol a hamdden yn cael eu caniatáu pan eu bod yn cydymffurfio â pholisi cynllunio cenedlaethol, ar raddfa sy'n briodol i swyddogaeth yr anheddiad
Prif bentrefi Haen 1	Glan Conwy Llysfaen Llanddulas Dwygyfylchi	Pentrefi â thros 100 o anheddau, sy'n cynnal ystod o gyfleusterau (ac sydd fel rheol yn cynnwys ysgol, siop a swyddfa bost) ac sydd â gwasanaeth cludiant cyhoeddus da a chysylltiadau clos ag ardaloedd trefol mwy.	O fewn aneddiadau – Bydd prif bentrefi'n darparu cyfuniad o dai am bris y farchnad a TFfALI ar safleoedd a neilltuwyd a hapsafleoedd. Bydd cynlluniau o'r fath ar y cyfan yn llai na'r rheiny a ganiateir mewn ardaloedd trefol, a byddant fel arfer yn cael eu cyflwyno'n raddol Y tu allan i ffiniau aneddiadau – TFfALI yn ôl cyfradd o 100% ar raddfa fechan ar ymyl anheddiad	Bydd datblygiadau manwerthu, masnachol a hamdden yn cael eu caniatáu ar raddfa sy'n briodol i swyddogaeth yr anheddiad
Prif bentrefi Haen 2	Betws-yn-Rhos Cerrigydrudion	Pentrefi â thros 100 o anheddau, sy'n	O fewn aneddiadau – Bydd prif bentrefi'n darparu TFfALI ar safleoedd	Bydd datblygiadau manwerthu, masnachol a hamdden yn cael

	Dolgarrog* Eglwysbach Llanfair Talhaearn Llangernyw Llansannan Trefriw* Tal-y-bont / Castell*	cynnal ystod o gyfleusterau (ac sydd fel rheol yn cynnwys ysgol, siop a swyddfa bost) ac sydd â gwasanaeth cludiant cyhoeddus da	a neilltuwyd a hapsafleoedd. Bydd cynlluniau o'r fath ar y cyfan yn llai na'r rheiny a ganiateir mewn ardaloedd trefol, a byddant fel arfer yn cael eu cyflwyno'n raddol Y tu allan i ffiniau aneddiadau – TFfALI yn ôl cyfradd o 100% ar raddfa fechan ar ymyl anheddiad	eu caniatáu ar raddfa sy'n briodol i swyddogaeth yr aneddiad
Pentrefi llai	Bryn Pydew Glanwydden Groes Henryd Llanbedr-y-cennin Llanddoged Llanefydd Llanelian Llangwm Llansan Siôr Pentrefelin Pentrefoelas Rhyd-y-foel Rowen* Tal-y-cafn Tyn-y-groes	Mae gan bentrefi llai fel arfer rhwng 50 a 100 o anheddau ac un cyfleuster cymunedol neu fwy. Gall y gwasanaethau cludiant cyhoeddus fod yn amrywiol	Dim safleoedd wedi'u neilltuo na ffiniau aneddiadau Hapsafleoedd – TFfALI sengl neu ystadau bychain o TFfALI o fewn, neu ar ymyl, aneddiadau	Bydd datblygiadau manwerthu, masnachol a hamdden yn cael eu caniatáu ar raddfa sy'n briodol i swyddogaeth yr aneddiad
Pentrefannau	Bodtegwel Bryn-y-maen Brymbo Bylchau Cefn Berain Cefn Brith Dinmael Glasfryn Groesffordd Gwytherin	Ar y cyfan mae gan bentrefannau rhwng 20 a 50 o anheddau a gwasanaethau cyfyngedig. Mae hygyrchedd cludiant cyhoeddus ar y cyfan yn wael/anfynych	Dim safleoedd wedi'u neilltuo na ffiniau aneddiadau Hapsafleoedd – TFfALI sengl o fewn, neu ar ymyl, aneddiadau	Datblygiadau ar raddfa fechan ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol neu sy'n cynnal hyfywedd y pentrefan

	Hendre Llanfihangel GM Maerdy Melin y Coed Nebo* Pandy Tudur Pentrellyncymer Pentre Tafarnyfedw Tan-y-fron Capelulo* Bryn Rhyd-yr-Arian Pentre Isa Glan Rhyd Rhydlydan			
Cefn gwlad agored			Anheddau ar gyfer gweithwyr ym myd amaeth neu goedwigaeth; troi adeiladau'n anheddau (TFfALI fel arfer)	Cynlluniau arallgyfeirio ar ffermydd; datblygiadau â gofynion penodol o ran eu lleoliad (e.e. tyrbinau gwynt)

* aneddiadau sy'n rhannol ym Mharc Cenedlaethol Eryri

Pennod Dau

Adolygiad o hierarchaeth aneddiadau a rennir sydd o boptu'r ffin rhwng Conwy a Pharc Cenedlaethol Eryri.

8. Pwrpas yr adroddiad

- 8.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut y bydd y Cynllun l'w archwilio gan y cyhoedd diwygiedig yn mynd i'r afael â rolau a swyddogaethau aneddiadau a rennir sydd o boptu'r ffin rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd yr adroddiad yn Bapur Cefndir a fydd yn goleuo'r CDLI mewn perthynas ag unrhyw oblygiadau cynllunio neu anghenion sy'n deillio o'r aneddiadau a rennir. Bydd yr adroddiad yn gwerthuso, yn fras, sut y gellir disgwyl i bob pentref ddatblygu yng ngoleuni polisiau ar hierarchaeth aneddiadau a chyfyngiadau eraill ar y naill ochr a'r llall i'r ffin rhwng yr awdurdodau.

9. Y cyd-destun polisi presennol (aneddiadau a rennir)

- 9.1 Mae'r pentrefi sy'n ymestyn i ardal y ddau ACLI yn cynnwys: Dolgarrog, Dwygyfylchi/ Capelulo, Tal-y-bont a Threfriw. Cafodd yr aneddiadau hyn eu nodi yn CDU Drafft Conwy fel 'prif bentrefi' yng Nghonwy. Caiff Trefriw ei nodi fel 'Anheddiad Eilaidd' yn CDLI Eryri, tra caiff y lleill eu nodi fel 'Aneddiadau Llai' yn CDLI Eryri.
- 9.2 Mae Nebo a Llanbedr-y-cennin hefyd o boptu'r ffin a chaiff yr anheddiad hwn ei nodi fel 'anheddiad llai' gan ACLI Conwy ac Anheddiad Eilaidd yn CDLI Eryri.
- 9.3 Gorwedd Rowen bron yn gyfan gwbl o fewn terfynau PCE heblaw am siop ac ysgol gynradd sydd o fewn ardal ACLI Conwy. Mae'r 'cyfleusterau' hyn ar wahân i'r prif glwstwr o anheddau sy'n ffurfio'r pentref. Ni roddir dosbarthiad o gwbl i Rowen yn CDU Conwy ond mae wedi'i gynnwys fel pentref llai yn y CDLI ac Anheddiad Eilaidd yn CDLI Eryri.

Conwy

- 9.4 Mae Cynllun Strwythur Gwynedd (CSG) yn nodi Llandudno/Conwy a Llanrwst fel 'canolbwyntiau', a Llandudno, Cyffordd Llandudno, Llanfairfechan, Morfa Conwy a Llanrwst fel 'lleoliadau cyflogaeth'. Nid yw CSG yn effeithio'n uniongyrchol ar

unrhyw gymunedau a rennir ond mae'n dwyn goblygiadau i ddatblygiadau o amgylch y pentrefi a rennir.

- 9.5 Mae Cynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn yn dilyn dull ac iddo dair haen ar gyfer dosbarthu aneddiadau. Mae'r Cynllun Lleol hefyd yn nodi 7 'prif bentref', yn ogystal ag 21 o 'aneddiadau llai'. Yn achos yr 'aneddiadau llai', cyfyngir datblygiadau tai i dai fforddiadwy sengl ar gyfer anghenion lleol (TFfALI). Nid yw CLIBC yn effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw gymunedau a rennir.
- 9.6 Ni aeth Cynllun Datblygu Unedol (CDU) Conwy yn bellach na statws drafft, ond cyfeirir ato at ddibenion cymharu. Roedd y CDU drafft hefyd yn dilyn dull ac iddo dair haen, ac yn nodi Dolgarrog, Dwygyfylchi, a Threfriw fel 'prif bentrefi'. Islaw'r lefel hwn, roedd y CDU yn cynnig 20 o 'aneddiadau llai' gan gynnwys Nebo.

Eryri

- 9.7 Mae CDLI Eryri'n berthnasol i'r Parc Cenedlaethol. Er nad yw'r Cynllun hwn yn berthnasol i ardal CDLI Conwy, mae'n effeithio ar y cymunedau uchod a rennir â CBS Conwy. Mae'n mabwysiadu dull ac iddo bedair haen sy'n cynnwys 2 'Ganolfan Gwasanaeth Lleol' (Dolgellau a'r Bala), 5 Anheddiad Gwasanaeth, 38 Anheddiad Eilaidd a 29 Anheddiad Llai. Caiff Trefriw ei nodi fel Anheddiad Eilaidd yn CDLI Eryri, tra bo Dolgarrog, Dwygyfylchi, Tal-y-bont a Rowen yn cael eu dynodi'n Aneddiadau Llai.

Materion	Aneddiadau a rennir											
	Dolgarrog		Dwygyfylchi		Trefriw		Nebo		Tal-y-bont		Capelulo	
	CBSC	PCE	CBSC	PCE	CBSC	PCE	CBSC	PCE	CBSC	PCE	CBSC	PCE
Dosbarthiad yn BSC	Prif bentref	Anheddiad Eilaidd	Prif bentref	Anheddiad Eilaidd	Prif bentref	Anheddiad Eilaidd	Anheddiad llai	Anheddiad Eilaidd	Prif bentref	Anheddiad Eilaidd	Anheddiad llai	Pentrefan
Ffin Anheddiad?	✓ CDU	✓ CLIE	✓ CDU	✓ CLIE	✓ CDU	✓ CLIE	x	X	✓ CDU	X	x	x
Polisiau Perthnasol	GP3 a H3 (CDU)	T1 (CLIE)	GP3 a H3 (CDU)	T1 (CLIE)	GP3 a H3 (CDU)	T1 (CLIE)	H4 (CDU)	T1 (CLIE)	GP3 a H3 (CDU)	T1 (CLIE)	H5 (CDU)	T6 (CLIE)
Cyfngiadau polisi	Datblygiad addas yn cael ei ganiatáu o fewn ffin yr anheddiad	Datblygiad addas yn cael ei ganiatáu o fewn ffin yr anheddiad	Datblygiad addas yn cael ei ganiatáu o fewn ffin yr anheddiad	Datblygiad addas yn cael ei ganiatáu o fewn ffin yr anheddiad	Datblygiad addas yn cael ei ganiatáu o fewn ffin yr anheddiad	Datblygiad addas yn cael ei ganiatáu o fewn ffin yr anheddiad	Achosion eithriadol ar gyfer anheddau sengl.	Datblygiad addas yn cael ei ganiatáu o fewn ffin yr anheddiad	Datblygiad addas yn cael ei ganiatáu o fewn ffin yr anheddiad	Datblygiad addas yn cael ei ganiatáu o fewn ffin yr anheddiad	Dim ond anheddau addas i weithwyr ym myd amaeth / coedwigaeth	Hyd at 2 annedd newydd yn ystod cyfnod cynllun
Cyfngiadau eraill	Cyfngiadau topograffig i'r gorllewin (PCE) a Pharth Llifogydd C2 i'r dwyrain (BSC). Mae'r mwyafrif o'r tai presennol yn PCE. Ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch safle cyflogaeth mawr i'r dwyrain (BSC). Ychydig iawn o ddewisiadau ar gyfer twf preswyl yn y dyfodol oni ymestynnir i ogledd neu dde'r anheddiad.		Problemau topograffig a phroblemau mynediad. Byddai'r mwyafrif o'r ehangu tebygol o fewn Conwy ac yn gyfagos at anheddiad Dwygyfylchi ac ni tuag at Gapelulo.		Mae'r mwyafrif o'r tai presennol yn PCE. Mae cyfngiadau topograffig i'r gorllewin (PCE) a Pharth Llifogydd C2 i'r dwyrain (BSC). Mae'r mwyafrif o'r tai yn PCE. Ychydig o ddewisiadau sydd ar gyfer twf preswyl yn y dyfodol oni ymestynnir i orllewin, gogledd neu dde'r anheddiad.		Mae'r mwyafrif o'r anheddiad yn BSC. Mae ardaloedd rhesymegol ar gyfer ehangu yn y dyfodol bob ochr i'r ffin. Nid oes angen adnabod unrhyw safleoedd.		Mae'r mwyafrif o'r anheddiad presennol yn BSC ac mewn Parth Llifogydd C2.		Parth Llifogydd C2 trwy ganol yr anheddiad. Mae'r mwyafrif o'r anheddiad presennol yn PCE.	
Argymhelliad	Rhai safleoedd bychain i'r dwyrain o'r B5106 ac i'r gorllewin o Barth Llifogydd C2. Mae bron mor llawn ag y gall fod.		Ffin yr Anheddiad i gael ei hymestyn ar gyfer dyraniadau posib yn y CDLI yn ardal ACLI Conwy yn unig.		Bydd angen ateb y gofyn am dai yn y dyfodol yn rhywle arall yn y byrdymor. Mae mor llawn ag y gall fod. Dim mantais i ymestyn ffin yr anheddiad. Dylid adnabod safleoedd eithriadau'r tu allan i ardal ACLI Conwy.		Dim cyfngiadau gwirioneddol heblaw am yr effaith ar y dirwedd. Dim ffin anheddiad.		Efallai y bydd safleoedd eithriadau posib yn cael eu cyflwyno yn ardal ACLI Conwy oherwydd y cyfngiad a osodir gan y Parth Llifogydd C2 a chyfle bach yn PCE.		Angen cael gwared ar y ffin anheddiad er mwyn bod yn gyson. Dylid dynodi Capelulo fel pentrefan. Ffin anheddiad Dwygyfylchi i aros.	

10. Y cyd-destun polisi sy'n datblygu – Conwy

- 10.1 Mae gwaith wrthi'n mynd rhagddo i nodi rolau aneddiadau allweddol trwy astudiaethau fel rhan o Gynllun Gofodol Cymru.
- 10.2 Cyhoeddwyd Strategaeth Ffaffriedig (SFf) Ddrafft y CDLI ym mis Hydref 2006. Roedd yn nodi 25 o Brif Aneddiadau, sydd ag o leiaf 100 o anheddau, ysgol gynradd, gwasanaeth bysiau rheolaidd (gan gofio am amgylchiadau gwahanol rhai cymunedau gwledig) ac yn y rhan fwyaf o achosion, siop, swyddfa bost a thŷ tafarn a chanolfan gymunedol neu fan cyfarfod arall. Roedd y SFf hefyd yn cynnig y byddai nifer amhenodol o Aneddiadau Llai'n cael eu nodi yn y cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd.

11. Yr Hierarchaeth

- 11.1 Canfuwyd fod dosbarthiad aneddiadau'n amrywio ychydig rhwng y ddau awdurdod. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith wrthdrawiadol ar bolisi cysylltiedig nac ar gyfradd twf pob anheddiad.

12. Pam fod angen adolygiad?

- 12.1 Mae angen adolygu'r hierarchaeth aneddiadau yn y SFf ddiwygiedig am y rhesymau canlynol:
- pryderon nad oedd SFf Hydref 2006 yn cynnwys elfen ofodol ddigonol;
 - yr angen i sicrhau bod y CDLI yn ystyriol o astudiaethau sydd wrthi'n datblygu fel rhan o'r Cynllun Gofodol;
 - yr angen i sicrhau bod CDLI Conwy'n gyson, cyn belled ag sy'n ymarferol, â CDLlïau a baratowyd gan awdurdodau cyfagos; a'r
 - angen i'r CDLI fod yn fwy ymatebol i dai fforddiadwy sy'n cwrdd ag anghenion lleol, yn enwedig yn yr aneddiadau llai.

13. Cymharu polisïau o boptu'r ffin

Prif Bentrefi – Conwy

- 13.1 Mae Prif Bentrefi'n cynnwys o leiaf 100 o anheddau, ysgol gynradd, gwasanaeth bysiau rheolaidd (gan gofio am amgylchiadau gwahanol rhai cymunedau gwledig) ac yn y rhan fwyaf o achosion, siop, swyddfa bost a thŷ tafarn a chanolfan gymunedol neu fan cyfarfod arall. Mae'r rhain yn cynnwys Betws-yn-Rhos, Cerrigydrudion,

Dolgarrog, Dwygyfylchi/Capelulo, Eglwysbach, Glan Conwy, Llanddulas, Llanfair Talhaearn, Llangernyw, Llansannan, Llysfaen, **Trefriw a Thal-y-bont / Castell**.

- 13.2 Fel gyda'r Ardaloedd Trefol, bydd tai'n cael eu darparu trwy gyfuniad o ymrwymïadau, safleoedd a neilltuwyd a hapsafleoedd. Yn achos y Prif Bentrefi, bydd safleoedd sy'n gallu derbyn mwy na deg annedd fel arfer yn cael eu neilltuo. Bydd cyfran o'r anheddau ar bob safle a neilltuwyd fel arfer yn TFfALI, yn unol â pholisïau sy'n datblygu ar Dai Fforddiadwy. Pan fo tystiolaeth o angen penodol am TFfALI mewn cymuned, gellid cadw safle ar gyfer TFfALI yn ôl cyfradd o 100%.
- 13.3 Bydd hapsafleoedd mewn Prif Bentrefi fel arfer yn derbyn hyd at bedair annedd, gan gynnwys cyfran a fwriadwyd fel TFfALI. Ni chaiff datblygiadau sy'n cynnwys mwy na phedair annedd ar hapsafleoedd ond eu caniatáu pan ellir eu cyfiawnhau, er enghraifft trwy ddarparu cyfran uwch o TFfALI.
- 13.4 Bydd y Cynllun hefyd yn caniatáu 'safleoedd eithriadau' sydd y tu allan ond yn gyfagos at ffiniau aneddiadau. Bydd y rhain yn darparu TFfALI yn ôl cyfradd o 100% ar raddfa fechan
- 13.5 Bydd Prif Bentrefi hefyd yn derbyn datblygiadau manwerthu, masnachol a hamdden a ganiateir ar raddfa sy'n gymesur â swyddogaeth yr anheddiad.
- 13.6 *Cymhariaeth â dull PCE.*
Mae gan 'Canolfannau Gwasanaeth Lleol a Threfi Gwasanaeth' yn PCE fel arfer boblogaeth o dros 500, ac ysgol gynradd, meddygfa, swyddfa bost a siop fwyd leol. Mae ganddynt hefyd ystod o gyfleusterau cymunedol a gwasanaeth cludiant cyhoeddus da.

14. Pentrefi Llai

- 14.1 Mae gan Bentrefi Llai rhwng 50 a 100 o anheddau fel arfer, ond mae ganddynt un cyfleuster cymunedol neu fwy. Er na fydd y CDLI yn neilltuo tir i'w ddatblygu mewn Pentrefi Llai, bydd yn caniatáu hyd at dri TFfALI yn, neu ar ymyl, yr aneddiadau. Mae hwn yn ddull mwy hyblyg nag ym Mholisi CH9 Cynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn, yn yr ystyr ei fod yn caniatáu cynlluniau â mwy nag un annedd a'i fod hefyd yn caniatáu i safleoedd ar ymyl aneddiadau gael eu hystyried. Dylai caniatáu mwy o

hyblygrwydd fel hyn roi anogaeth i gyflwyno mwy o geisiadau am TFfALI yn y Pentrefi Llai.

- 14.2 Bydd pentrefi llai hefyd yn derbyn datblygiadau manwerthu, masnachol a hamdden a ganiateir ar raddfa sy'n gymesur â swyddogaeth yr anheddiad.

- 14.3 *Cymhariaeth â dull PCE.*

Pentrefi Llai yw'r disgrifiad a ddefnyddir gan APCE hefyd i ddisgrifio aneddiadau yn y categori hwn, (Dolgarrog, Dwygyfylchi, Tal-y-bont, Llanbedr-y-cennin, Trefriw a Rowen). Mae gan y rhain boblogaeth o fwy na 50 ac mae ganddynt un cyfleuster lleol allweddol neu fwy a chyfleusterau cymunedol ychwanegol. Ni fydd tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol ond yn cael eu caniatáu yn y 'Pentrefi Llai', dull sy'n debyg i'r un a ddefnyddir mewn perthynas â 'Phentrefi Llai' yn ACLI Conwy.

15. Pentrefannau

- 15.1 Pentrefannau yw'r categori aneddiadau lleiaf. Maent yn glwstwr o aneddiadau sy'n hawdd i'w adnabod, ac maent yn nodweddiadol yn cynnwys rhwng 20 a 50. Mewn nifer o achosion, mae ganddynt hefyd un cyfleuster cymunedol neu fwy. Fodd bynnag, mae gwasanaethau cludiant cyhoeddus ar y cyfan yn anfynych ac mae'n rhaid wrth reolaeth dynn ar raddfeydd y datblygiadau. Ni chynigir neilltuo tir na dynodi ffiniau aneddiadau mewn Pentrefannau. Fodd bynnag, gellir caniatáu AFfALI sengl o fewn, neu ar ymyl yr anheddiad, yn ogystal â datblygiadau eraill ar raddfa fechan ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol neu sy'n cynnal hyfywedd y pentrefan.

- 15.2 *Cymhariaeth â dull PCE*

Yn PCE, mae gan 'bentrefannau' (Capelulo a Nebo) boblogaeth sydd o dan 70, nid oes ganddynt unrhyw gyfleusterau lleol allweddol ac ychydig iawn o gyfleusterau cymunedol sydd ganddynt. Ni fydd ffin anheddiad mewn pentrefannau. Bydd unedau sengl o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol yn cael eu caniatáu (2/3 trwy gydol y cyfnod o 15 mlynedd y bydd y cynllun yn weithredol). Mae hwn eto'n ddull tebyg i'r un a gynigir yng Nghonwy.

16 Materion

- 16.1 Mae angen cael cysondeb. Er bod yr hierarchaethau ychydig yn wahanol rhwng yr awdurdodau mae'u dulliau o ran polisi'n debyg; fodd bynnag, canfuwyd nifer o faterion sy'n cynnwys:

Trefriw

- 16.2 Mae risgiau topograffeg a risg llifogydd difrifol sy'n cyfyngu i ba raddau y gall yr anheddiad ddatblygu, yn enwedig o safbwynt tai. Y prif faterion yw'r risg o lifogydd, cyfyngiadau topograffig a chyfyngiadau sy'n ymwneud â'r ffin rhwng y siroedd. Mae Map 5 yn dangos bod yr anheddiad mor llawn ag y gall fod yn ardal ACLI Conwy ac y bydd yn rhaid i le ar gyfer tai yn y dyfodol gael ei ganfod y tu allan i BS Conwy ac o fewn PCE neu yn rhywle arall.

Dwygyfylchi a Chapelulo

- 16.3 Mae dryswch yn bodoli ynghylch y rheswm y mae angen i Gapelulo fod â ffin anheddiad. Er mwyn cysondeb, mae angen i ACLI Conwy gael gwared ar y ffin anheddiad o amgylch Capelulo a'i ddynodi'n 'bentrefan'. Bydd y ffin anheddiad o amgylch Dwygyfylchi'n aros am fod hwn wedi'i ddynodi'n brif bentref. Bydd unrhyw estyniad pellach ar y ffin anheddiad yn digwydd o ganlyniad i broses y CDLI.

Safleoedd Eithriadau

- 16.4 Yn debyg i'r sefyllfa yn Nhrefriw, cyfyngir ar aneddiadau Tal-y-bont a Dolgarrog gan y parth llifogydd C2 a nodweddion topograffig. Er mwyn rhoi cymorth i'r aneddiadau dyfu mae'n debygol y bydd angen i ACLI Conwy adnabod safleoedd eithriadau gan mai ychydig iawn o le sydd yn PCE.

17 Argymhellion

- 17.1 Mae'r pwyntiau gweithredu'n cynnwys:

- Yr angen i gydnabod nad oes mwy o le i ddatblygu yn Nhrefriw. Y rheswm am hyn yw'r risg o lifogydd, a chyfyngiadau topograffig a chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r ffin rhwng y ddwy sir. Bydd angen dod o hyd i le i gwrdd â'r angen am dai i'r gymuned yn y dyfodol y tu allan i BS Conwy ac o fewn PCE.

- Yr angen i Gonwy gael gwared ar ffin anheddiad Capelulo a'i ddynodi'n 'bentrefan' er mwyn cael cysondeb â'r dull a ddefnyddir ar gyfer pentrefannau eraill a'r dull yn PCE.
- Yr angen am gydweithio agos rhwng awdurdodau i roi cymorth i broses y CDLI a sicrhau cysondeb.

Atodiad 1

Tabl 10.1a: Cyfleusterau a Gwasanaethau a geir ym mhob Anheddiad.

Anheddiad	Poblogaeth 2007	Ystod o siopau a gwasanaethau	Meddygfa	Mynediad at addysg uwchradd	Ystod o gyfleoedd cyflogaeth	Mynediad da heb gar i ganol y dref	Nifer y meini prawf y cwrddir â hwy
Abergele / Pensarn	10,200	✓	✓	✓	✓	✓	5
Bae Colwyn	25,400	✓	✓	✓	✓	✓	5
Bae Penrhyn / Ochr Penrhyn	4,800 (ward)	✓	X	✓	✓	✓	4
Conwy	14,200 (4,300 Ward Conwy)	✓	✓	✓	✓	✓	5
Cyffordd Llandudno	(6,400 Marl a Phensarn)	✓	X	X	✓	✓	3
Deganwy / Llanrhos	(3,700 Ward)	✓	X	X	✓	✓	3
Llandudno (g.g. Craig y Don / Craigside)	15,300 (Wardiau Craig y Don, Gogarth, Mostyn a Thudno)	✓	✓	✓	✓	✓	5
Llanfairfechan	3,700	✓	✓	X	✓	✓	4
Llanrwst	3,100	✓	✓	✓	✓	✓	5
Mochdre	1,900	✓	X	X	✓	✓	3
Penmaenmawr	2,500 (Pant yr Afon a Phenmaenan)	✓	X	X	✓	✓	3
Tywyn / Bae Cinmel	8,300	✓	X	X	✓	✓	3
Glan Conwy	2,300	X	✓	X	X	✓	2
Llysfaen	2,800	✓	X	X	X	✓	2
Llanddulas	1,600 (g.g. Rhyd y Foel)	✓	X	X	X	X	1
Dwygyfylchi	1400 (Capelulo)	X	X	X	X	✓	1
Betws-yn-Rhos	1000	X	X	X	X	X	0
CC Caerhun	1,300	X	X	X	X	X	0


Cerrigydrudion	700	X	X	X	X	X	0
Dolgarrog*	400 (gan gynnwys cyfran PCE)	X	X	X	X	X	0
Eglwysbach	900	X	X	X	X	X	0
Llanfair Talhaearn	1,000	X	✓	X	X	X	1
Llangernyw	1,000	X	X	X	X	X	0
Llansannan	1,300	X	X	X	X	X	0
Trefriw*	900 (g.g. cyfran PCE)						
Tal-y-bont / Castell*	(yng Nghaerhun)	X	X	X	X	X	0
Bryn Pydew	(ym Mhenrhyn)	X	X	X	X	X	0
Glanwydden	(Ym Mhenrhyn)	X	X	X	X	X	0
Groes	Yn Llansannan	X	X	X	X	X	0
Henryd	700	X	X	X	X	X	0
Llansan Siôr	Yn CC Abergele	X	X	X	X	X	0
Llanbedr-y-cennin	Yng Nghaerhun	X	X	X	X	X	0
Llanddoged	600	X	X	X	X	X	0
Llanefydd	600	X	X	X	X	X	0
Llangwm	500	X	X	X	X	X	0
Pentrefelin	Yng Nglan Conwy	X	X	X	X	X	0
Pentrefoelas	300	X	X	X	X	X	0
Rhyd-y-foel	Yn Llanddulas	X	X	X	X	X	0
Rowen*	Yng Nghaerhun	X	X	X	X	X	0
Tal-y-cafn	Yn Eglwysbach	X	X	X	X	X	0
Tyn-y-groes	Yng Nghaerhun	X	X	X	X	X	0
Bodtegwel	Yn CC Abergele	X	X	X	X	X	0
Bryn-y-maen	Ym Mae Colwyn (Rhiw)	X	X	X	X	X	0
Brymbo	Yn Eglwysbach	X	X	X	X	X	0
Bylchau	Yn Llansannan	X	X	X	X	X	0
Cefn Berain	Yn Llanefydd	X	X	X	X	X	0
Capelulo*	Yn Nwygyfylchi	X	X	X	X	X	0
Cefn Brith	Yng Ngherrigydrudion	X	X	X	X	X	0

	CC						
Dinmael	Yn CC Llangwm	X	X	X	X	X	0
Glasfryn	Yn CC Cerrigydrudion	X	X	X	X	X	0
Groesffordd	Yn CC Henryd	X	X	X	X	X	0
Gwytherin	Yn CC Llangernyw	X	X	X	X	X	0
Hendre	Yn CC Llanddulas	X	X	X	X	X	0
Llanfihangel GM	200	X	X	X	X	X	0
Maerdy	Yn CC Llangwm	X	X	X	X	X	0
Melin y Coed	Heb ei ddangos	X	X	X	X	X	0
Nebo*	Heb ei ddangos	X	X	X	X	X	0
Pandy Tudur	Yn CC Llangernyw	X	X	X	X	X	0
Pentrellyncymer	Yn CC Cerrigydrudion	X	X	X	X	X	0
Pentre Tafarnyfedw	Yn CC Llanrwst	X	X	X	X	X	0
Tan-y-fron	Yn CC Llansannan	X	X	X	X	X	0
Cyfanswm Pob BS Conwy	111,700						


Atodiad 2

Mapiau o Aneddiadau a Rennir


Map 1 Capelulo a Dwygyfylchi




Map 2 Tal-y-bont




Map 3 Dolgarrog (tir y tu allan i barth llifogydd C2 ac yn BS Conwy)




Map 4 Llanbedr-y-Cennin



Map 5 Trefriw



Map 6 Nebo



Atodiad 3

2001 Data o'r Cyfrifiad – Yr Iaith Gymraeg

	Pawb sy'n 3 oed ac yn hŷn	Un sgil neu fwy yn y Gymraeg		Cyfanswm y Siaradwyr Cymraeg		Dim gwybodaeth o'r Gymraeg	
Cymru	2,805,701	797,717	28.4%	575,640	20.5%	2,007,984	71.6%
Y Fwrdeistref Sirol	106,316	42,174	39.7%	31,042	29.2%	64,142	60.3%
Abergele	9,742	2,846	29.2%	2,008	20.6%	6,896	70.8%
Bae Colwyn	9,449	2,769	29.3%	1,836	19.4%	6,680	70.7%
Bae Colwyn*	23,804	7,214	30.3%	4,847	20.4%	16,590	69.7%
Betws y Coed	519	349	67.2%	298	57.4%	170	32.8%
Betws-yn-Rhos	921	551	59.8%	447	48.5%	370	40.2%
Bro Garmon	630	448	71.1%	419	66.5%	182	28.9%
Bro Machno	604	422	69.9%	369	61.1%	182	30.1%
Caerhun	1,169	691	59.1%	556	47.6%	478	40.9%
Capel Curig	218	135	61.9%	115	52.8%	83	38.1%
Cerrigydrudion	674	540	80.1%	515	76.4%	134	19.9%
Conwy	13,777	5,881	42.7%	4,103	29.8%	7,896	57.3%
Dolgarrog	401	270	67.3%	200	49.9%	131	32.7%
Dolwyddelan	419	269	64.2%	232	55.4%	150	35.8%
Eglwysbach	897	520	58.0%	439	48.9%	377	42.0%
Hen Golwyn	7,400	2,640	35.7%	1,775	24.0%	4,760	64.3%
Henryd	670	342	51.0%	261	39.0%	328	49.0%
Llandrillo-yn-Rhos	6,955	1,805	26.0%	1,236	17.8%	5,150	74.0%
Llandudno	19,521	6,336	32.5%	4,205	21.5%	13,185	67.5%
Llanddoded a Maenan	557	382	68.6%	347	62.3%	175	31.4%
Llanddulas	1,523	518	34.0%	352	23.1%	1,005	66.0%
Llanefydd	534	362	67.8%	327	61.2%	172	32.2%
Llanfairfechan	3,640	2,326	63.9%	1,828	50.2%	1,314	36.1%
Llanfair Talhaearn	959	518	54.0%	421	43.9%	441	46.0%
Llanfihangel Glyn Myfyr	191	151	79.1%	133	69.6%	40	20.9%
Llangernyw	961	704	73.3%	639	66.5%	257	26.7%

Llangwm	500	372	74.4%	356	71.2%	128	25.6%
Llanrwst	2,919	2,270	77.8%	1,876	64.3%	649	22.2%
Llansanffraid Glan Conwy	2,227	1,073	48.2%	790	35.5%	1,154	51.8%
Llansannan	1,240	903	72.8%	834	67.3%	337	27.2%
Llysfaen	2,513	878	34.9%	591	23.5%	1,635	65.1%
Mochdre	1,794	654	36.5%	434	24.2%	1,140	63.5%
Penmaenmawr	3,734	1,955	52.4%	1,402	37.5%	1,779	47.6%
Pentrefoelas	331	271	81.9%	256	77.3%	60	18.1%
Trefriw	894	540	60.4%	448	50.1%	354	39.6%
Tywyn a Bae Cinmel	7,617	1,297	17.0%	814	10.7%	6,320	83.0%
Ysbyty Ifan	216	186	86.1%	180	83.3%	30	13.9%